# Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

**2016 dccc 3**

## RHAN 2

NEWID YN YR HINSAWDD

*Rhagarweiniad*

### 28 Diben y Rhan hon

Diben y Rhan hon yw ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyrraedd targedau ar gyfer lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o Gymru.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 28 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(b)**

*Targedau allyriadau a chyllidebau carbon: y prif ddyletswyddau ar Weinidogion Cymru*

### 29 Targed allyriadau 2050

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod cyfrif allyriadau net Cymru ar gyfer y flwyddyn 2050 o leiaf **[**[F1]100%**]** yn is na'r waelodlin.

(2) Gweler adran 33 am ystyr "cyfrif allyriadau net Cymru", a gweler adran 38 am ystyr y "waelodlin".

(3) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddiwygio is-adran (1) fel ei bod yn pennu canran sy'n fwy nag 80%.

(4) Yn y Rhan hon, cyfeirir at y targed yn is-adran (1) fel "targed allyriadau 2050".

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Gair yn a. 29(1) wedi ei amnewid (19.3.2021) gan Rheoliadau Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (Diwygio Targed Allyriadau 2050) 2021 (O.S. 2021/333), rhlau. 1(2), **2**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** A. 29 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(b)**

## 30 Targedau allyriadau interim

(1) Ar gyfer pob blwyddyn darged interim rhaid i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, osod uchafswm ar gyfer cyfrif allyriadau net Cymru, a fynegir fel canran islaw'r waelodlin ("targed allyriadau interim").

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau nad yw cyfrif allyriadau net Cymru ar gyfer pob blwyddyn darged interim yn uwch na'r targed allyriadau interim ar gyfer y flwyddyn honno.

(3) Y blynyddoedd targed interim yw 2020, 2030 a 2040.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru osod y targedau allyriadau interim cyn diwedd 2018.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** A. 30 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(b)**

## 31 Cyllidebau carbon

(1) Ar gyfer pob cyfnod cyllidebol, rhaid i Weinidogion Cymru osod drwy reoliadau gyfanswm uchaf ar gyfer cyfrif allyriadau net Cymru ("cyllideb garbon").

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau nad yw cyfrif allyriadau net Cymru ar gyfer pob cyfnod cyllidebol yn uwch na'r gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod hwnnw.

(3) Y cyfnodau cyllidebol yw—

(a) 2016 i 2020, a

(b) pob cyfnod dilynol o bum mlynedd, sy'n dod i ben â 2046 i 2050.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) gosod y cyllidebau carbon ar gyfer y ddau gyfnod cyllidebol cyntaf cyn diwedd 2018, a

(b) gosod y gyllideb garbon ar gyfer y trydydd cyfnod cyllidebol a'r cyfnodau cyllidebol diweddarach o leiaf bum mlynedd cyn dechrau'r cyfnod o dan sylw.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I4** A. 31 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(b)**

## 32 Targedau allyriadau a chyllidebau carbon: egwyddorion

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) gosod pob targed allyriadau interim ar lefel y maent wedi eu bodloni ei bod yn gyson â chyrraedd targed allyriadau 2050, a

(b) gosod y gyllideb garbon ar gyfer pob cyfnod cyllidebol ar lefel y maent wedi eu bodloni ei bod yn gyson â chyrraedd—

(i) targed allyriadau 2050, a

(ii) y targed allyriadau interim ar gyfer unrhyw flwyddyn darged interim sydd o fewn y cyfnod cyllidebol hwnnw neu'n dod ar ei ôl.

(2) Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n newid targed allyriadau 2050, targed allyriadau interim neu gyllideb garbon oni bai bod o leiaf un o'r amodau a ganlyn wedi ei fodloni—

(a) eu bod wedi eu bodloni ei bod yn briodol gwneud y newid o ganlyniad i ddatblygiadau sylweddol o ran—

(i) gwybodaeth wyddonol ynghylch newid yn yr hinsawdd, neu

(ii) cyfreithiau neu bolisïau'r UE neu gyfreithiau neu bolisïau rhyngwladol sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd;

(b) bod y corff cynghori wedi argymell y newid;

(c) bod y newid yn gysylltiedig â darpariaeth a wneir o dan adran 35(1) neu 37(2).

(3) Wrth wneud rheoliadau sy'n newid targed allyriadau 2050, neu'n gosod neu'n newid targed allyriadau interim neu gyllideb garbon, rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i—

(a) yr adroddiad diweddaraf o dan adran 8 ar gyflwr adnoddau naturiol mewn perthynas â Chymru,

(b) yr adroddiad tueddiadau tebygol y dyfodol diweddaraf o dan adran 11 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (dccc 2),

(c) yr adroddiad diweddaraf (os oes un) o dan adran 23 o'r Ddeddf honno (adroddiad cenedlaethau'r dyfodol),

(d) gwybodaeth wyddonol ynghylch newid yn yr hinsawdd,

(e) technoleg sy'n berthnasol i newid yn yr hinsawdd, ac

(f) cyfreithiau a pholisïau'r UE a chyfreithiau a pholisïau rhyngwladol sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd (gan gynnwys cytundebau rhyngwladol ar fesurau a gynlluniwyd i gyfyngu ar gynnydd mewn tymheredd cyfartalog byd-eang).

(4) Mae adrannau 49 a 50 yn gwneud darpariaeth ynghylch y cyngor y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ei gael gan y corff cynghori, a'i ystyried, cyn gwneud rheoliadau sy'n newid targed allyriadau 2050 neu'n gosod neu'n newid targed allyriadau interim neu gyllideb garbon.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I5** A. 32 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(b)**

*Targedau a chyllidebau: cwmpas a phrif gysyniadau*

## 33 Cyfrif allyriadau net Cymru

(1) "Cyfrif allyriadau net Cymru" ar gyfer cyfnod yw'r swm a gyfrifir fel a ganlyn—

(a) penderfynu swm allyriadau net Cymru o nwyon tŷ gwydr am y cyfnod yn unol ag adran 34;

(b) tynnu swm yr unedau carbon a gredydir i gyfrif allyriadau net Cymru am y cyfnod;

(c) ychwanegu swm yr unedau carbon a ddidynnir o gyfrif allyriadau net Cymru am y cyfnod.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth ynghylch y canlynol drwy reoliadau—

(a) o dan ba amgylchiadau y caniateir credydu unedau carbon i gyfrif allyriadau net Cymru am gyfnod;

(b) o dan ba amgylchiadau y mae'n rhaid didynnu unedau carbon o gyfrif allyriadau net Cymru am gyfnod;

(c) sut y mae hynny i gael ei wneud.

(3) Rhaid i'r rheoliadau gynnwys darpariaeth ar gyfer sicrhau bod unedau carbon sy'n cael eu credydu i gyfrif allyriadau net Cymru am gyfnod yn peidio â bod ar gael i'w gosod yn erbyn allyriadau eraill o nwy tŷ gwydr.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru osod terfyn, drwy reoliadau, ar swm net yr unedau carbon y caniateir gostwng cyfrif allyriadau net Cymru am gyfnod o ganlyniad i gymhwyso is-adran (1)(b) ac (c).

(5) Caiff y rheoliadau ddarparu nad yw unedau carbon o ddisgrifiad a bennir yn y rheoliadau yn cyfrannu at y terfyn.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I6** A. 33 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(b)**

## 34 Allyriadau net Cymru

(1) Yn y Rhan hon, ystyr "allyriadau net Cymru" o nwy tŷ gwydr am gyfnod yw swm allyriadau Cymru o'r nwy hwnnw am y cyfnod, wedi ei ostwng yn ôl swm echdyniadau Cymru o'r nwy hwnnw am y cyfnod.

(2) Ystyr "allyriadau Cymru" o nwy tŷ gwydr yw—

(a) allyriadau o'r nwy hwnnw o ffynonellau yng Nghymru, a

(b) allyriadau o'r nwy hwnnw o hedfan rhyngwladol neu forgludiant rhyngwladol sy'n cyfrif fel allyriadau Cymru yn rhinwedd rheoliadau o dan adran 35.

(3) Ystyr "echdyniadau Cymru" o nwyon tŷ gwydr yw echdyniadau o'r nwy hwnnw o'r atmosffer o ganlyniad i ddefnydd tir yng Nghymru, newid mewn defnydd tir yng Nghymru neu weithgareddau coedwigaeth yng Nghymru.

(4) Rhaid i symiau allyriadau Cymru ac echdyniadau Cymru o nwy tŷ gwydr ar gyfer cyfnod gael eu penderfynu yn gyson ag arferion rhyngwladol adrodd ar garbon, cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I7** A. 34 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(b)**

## 35 Allyriadau Cymru o hedfan a morgludiant rhyngwladol

(1) Caiff Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth drwy reoliadau i allyriadau o nwy tŷ gwydr o hedfan rhyngwladol a morgludiant rhyngwladol gyfrif fel allyriadau Cymru o'r nwy.

(2) Caiff y rheoliadau—

(a) pennu gweithgareddau sydd i'w hystyried yn hedfan rhyngwladol neu'n forgludiant rhyngwladol;

(b) pennu o dan ba amgylchiadau, ac i ba raddau, y mae allyriadau o nwy tŷ gwydr o hedfan rhyngwladol neu forgludiant rhyngwladol i gyfrif fel allyriadau Cymru o'r nwy hwnnw;

(c) pennu o ba gyfnod (pa un a yw yn y gorffennol neu yn y dyfodol) y mae allyriadau o nwy tŷ gwydr o hedfan rhyngwladol neu forgludiant rhyngwladol i gyfrif fel allyriadau Cymru o'r nwy hwnnw;

(d) gwneud darpariaeth ynghylch sut y mae allyriadau o nwy tŷ gwydr o hedfan rhyngwladol neu forgludiant rhyngwladol i gael eu hystyried wrth benderfynu ar allyriadau Cymru o'r nwy am y flwyddyn waelodlin ar gyfer y nwy hwnnw;

(e) gwneud darpariaeth wahanol ar gyfer gwahanol nwyon tŷ gwydr a gwahanol gyfnodau.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I8** A. 35 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(b)**

## 36 Unedau carbon

(1) Yn y Rhan hon, ystyr "uned garbon" yw uned o fath a bennir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru ac sy'n cynrychioli—

(a) gostyngiad mewn swm o allyriadau nwy tŷ gwydr,

(b) echdyniad o swm o nwy tŷ gwydr o'r atmosffer, neu

(c) swm o allyriadau nwy tŷ gwydr a ganiateir o dan gynllun neu drefniant sy'n gosod terfyn ar allyriadau o'r fath.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth drwy reoliadau ar gyfer cynllun—

(a) i gofrestru unedau carbon neu gadw cyfrif ohonynt fel arall, neu

(b) i sefydlu a chynnal cyfrifon y caniateir i Weinidogion Cymru gadw unedau carbon ynddynt, a'u trosglwyddo rhyngddynt.

(3) Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth, yn benodol, i gynllun cyfredol gael ei addasu at y dibenion hyn (gan gynnwys drwy ddiwygio unrhyw ddeddfiad sy'n ymwneud â'r cynllun cyfredol).

(4) Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth—

(a) i benodi person ("gweinyddwr") i weinyddu'r cynllun;

(b) sy'n rhoi swyddogaethau i'r gweinyddwr neu'n gosod swyddogaethau arno at y diben hwnnw (gan gynnwys drwy ddiwygio unrhyw ddeddfiad sy'n ymwneud â'r gweinyddwr);

(c) sy'n rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru roi canllawiau neu gyfarwyddydau i'r gweinyddwr;

(d) sy'n rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddirprwyo'r gwaith o gyflawni unrhyw un neu ragor o'r swyddogaethau a roddir i Weinidogion Cymru neu a osodir arnynt gan y rheoliadau;

(e) i'w gwneud yn ofynnol i bersonau sy'n defnyddio'r cynllun wneud taliadau (y penderfynir eu symiau gan y rheoliadau neu oddi tanynt) tuag at y gost o'i weithredu.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I9** A. 36 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(b)**

## 37 Nwyon tŷ gwydr

(1) At ddibenion y Rhan hon, mae pob un o'r canlynol yn "nwy tŷ gwydr"—

(a) carbon deuocsid;

(b) methan;

(c) ocsid nitraidd;

(d) hydrofflworocarbonau;

(e) perfflworocarbonau;

(f) sylffwr hecsafflworid;

(g) nitrogen trifflworid.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio is-adran (1) drwy reoliadau er mwyn ychwanegu nwy neu ddiwygio disgrifiad o nwy.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I10** A. 37 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(b)**

## 38 Y waelodlin

(1) Yn y Rhan hon, ystyr y "waelodlin" yw swm cyfanredol allyriadau net Cymru o nwyon tŷ gwydr ar gyfer y blynyddoedd gwaelodlin.

(2) Y flwyddyn waleodlin ar gyfer pob nwy tŷ gwydr yw—

(a) carbon deuocsid: 1990;

(b) methan: 1990;

(c) ocsid nitraidd: 1990;

(d) hydrofflworocarbonau: 1995;

(e) perfflworocarbonau: 1995;

(f) sylffwr hecsafflworid: 1995;

(g) nitrogen trifflworid: 1995.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio is-adran (2) drwy reoliadau er mwyn—

(a) pennu'r flwyddyn waelodlin ar gyfer nwy tŷ gwydr a ychwanegir gan reoliadau o dan adran 37(2);

(b) addasu'r flwyddyn waelodlin ar gyfer nwy tŷ gwydr.

(4) Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth o dan is-adran (3)(b) onid ydynt wedi eu bodloni ei bod yn briodol gwneud hynny o ganlyniad i ddatblygiadau sylweddol yn nghyfreithiau neu bolisïau'r UE neu gyfreithiau neu bolisïau rhyngwladol sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I11** A. 38 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(b)**

*Cydymffurfio â chyllidebau carbon: adroddiadau a datganiadau gan Weinidogion Cymru*

## 39 Cynigion a pholisïau ar gyfer cyrraedd cyllideb garbon

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi adroddiad ar gyfer pob cyfnod cyllidebol yn amlinellu eu cynigion a'u polisïau ar gyfer cyrraedd y gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod hwnnw.

(2) Rhaid i'r adroddiad nodi cynigion a pholisïau sy'n ymwneud â meysydd cyfrifoldeb pob un o Weinidogion Cymru.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) cyhoeddi'r adroddiad ar gyfer y cyfnod cyllidebol cyntaf cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl gosod y gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod hwnnw;

(b) cyhoeddi'r adroddiad ar gyfer yr ail gyfnod cyllidebol a'r cyfnodau cyllidebol diweddarach cyn diwedd blwyddyn gyntaf y cyfnod o dan sylw.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I12** A. 39 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(b)**

## 40 Cario symiau o un cyfnod cyllidebol i un arall

(1) Caiff Gweinidogion Cymru benderfynu cario rhan o'r gyllideb garbon ar gyfer cyfnod cyllidebol yn ôl i'r cyfnod cyllidebol blaenorol.

(2) Mae'r gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod diweddarach yn cael ei gostwng, a'r gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod cynharach yn cael ei chynyddu, yn ôl y swm a gariwyd yn ôl.

(3) Ni chaiff y swm sy'n cael ei gario yn ôl fod yn fwy nag 1% o'r gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod diweddarach.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru benderfynu cario unrhyw ran o'r gyllideb garbon ar gyfer cyfnod cyllidebol nas defnyddiwyd ymlaen i'r cyfnod cyllidebol nesaf.

(5) Mae'r gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod diweddarach yn cael ei chynyddu, a'r gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod cynharach yn cael ei gostwng, yn ôl y swm a gariwyd ymlaen.

(6) Mae'r gyllideb garbon ar gyfer cyfnod yn un "nas defnyddiwyd" i'r graddau ei bod yn fwy na chyfrif allyriadau net Cymru ar gyfer y cyfnod.

(7) Cyn penderfynu cario swm yn ôl neu ymlaen o dan yr adran hon, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r corff cynghori.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I13** A. 40 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(b)**

## 41 Datganiad terfynol ar gyfer cyfnod cyllidebol

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) paratoi datganiad terfynol ar gyfer pob cyfnod cyllidebol yn unol â'r adran hon, a

(b) gosod y datganiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru cyn diwedd yr ail flwyddyn ar ôl y cyfnod y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef.

(2) Rhaid i ddatganiad terfynol o dan yr adran hon ddatgan, mewn perthynas â phob nwy tŷ gwydr, gyfanswm allyriadau Cymru, echdyniadau Cymru ac allyriadau net Cymru ar gyfer y cyfnod cyllidebol y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef.

(3) Rhaid iddo—

(a) datgan cyfanswm yr unedau carbon a gredydwyd i gyfrif allyriadau net Cymru neu a ddidynnwyd ohono am y cyfnod, a

(b) rhoi manylion am nifer yr unedau hynny a'r math o unedau.

(4) Rhaid iddo ddatgan swm terfynol cyfrif allyriadau net Cymru ar gyfer y cyfnod.

(5) Rhaid iddo ddatgan a yw Gweinidogion Cymru wedi penderfynu cario swm yn ôl neu ymlaen o dan adran 40 er mwyn cynyddu neu ostwng y gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod, ac os felly rhaid iddo ddatgan y swm a gariwyd yn ôl neu ymlaen.

(6) Rhaid iddo ddatgan swm terfynol y gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod.

(7) Penderfynir a gyrhaeddwyd y gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod drwy gyfeirio at yr wybodaeth yn y datganiad.

(8) Rhaid i'r datganiad egluro'r rhesymau y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn gyfrifol am y ffaith bod y gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod wedi ei chyrraedd, neu nad yw ei chyrraedd.

(9) Yn benodol, rhaid iddo gynnwys asesiad Gweinidogion Cymru ynghylch i ba raddau y mae eu cynigion a'u polisïau ar gyfer cyrraedd y gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod—

(a) wedi eu gweithredu, a

(b) wedi cyfrannu at gyrraedd y gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod (neu beidio â'i chyrraedd).

(10) Rhaid i'r asesiad ymdrin â meysydd cyfrifoldeb pob un o Weinidogion Cymru.

(11) Rhaid i ddatganiad o dan yr adran hon hefyd gynnwys—

(a) amcangyfrif o gyfanswm allyriadau defnyddwyr Cymru ar gyfer y cyfnod cyllidebol y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef, a

(b) eglurhad o sut y mae Gweinidogion Cymru wedi cyfrifo'r amcangyfrif.

(12) Ystyr "allyriadau defnyddwyr Cymru" ar gyfer cyfnod yw'r allyriadau o nwyon tŷ gwydr, boed hwy yng Nghymru neu yn rhywle arall, y gellir eu priodoli yn rhesymol i ddefnyddio nwyddau a gwasanaethau yng Nghymru yn ystod y cyfnod.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I14** A. 41 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(b)**

### 42 Cynigion a pholisïau pan nad yw cyllideb garbon wedi ei chyrraedd

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os yw Gweinidogion Cymru wedi gosod datganiad terfynol gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn cysylltiad â chyfnod cyllidebol lle mae allyriadau net Cymru yn fwy na'r gyllideb garbon.

(2) Yn ddim hwyrach na thri mis ar ôl gosod y datganiad, rhaid i Weinidogion Cymru osod adroddiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn nodi cynigion a pholisïau i wneud iawn am yr allyriadau sy'n fwy na'r gyllideb garbon mewn cyfnodau cyllidebol diweddarach.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I15** A. 42 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(b)**

*Cydymffurfio â thargedau allyriadau: datganiadau gan Weinidogion Cymru*

### 43 Datganiadau ar gyfer blynyddoedd targed interim a 2050

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru—
- (a) paratoi datganiad ar gyfer pob blwyddyn darged interim ac ar gyfer y flwyddyn 2050 yn unol â'r adran hon, a
- (b) gosod pob datganiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru cyn diwedd yr ail flwyddyn ar ôl y flwyddyn y mae'r datganiad yn ymwneud â hi.

(2) Rhaid i ddatganiad o dan yr adran hon ddatgan, mewn perthynas â phob nwy tŷ gwydr, gyfanswm allyriadau Cymru, echdyniadau Cymru ac allyriadau net Cymru ar gyfer y flwyddyn y mae'r datganiad yn ymwneud â hi.

(3) Rhaid iddo—
- (a) datgan cyfanswm yr unedau carbon a gredydwyd i gyfrif allyriadau net Cymru neu a ddidynwyd ohono am y flwyddyn, a
- (b) rhoi manylion am nifer yr unedau hynny a'r math o unedau.

(4) Rhaid iddo ddatgan swm cyfrif allyriadau net Cymru ar gyfer y flwyddyn.

(5) Penderfynir a gyrhaeddwyd targed allyriadau interim neu darged allyriadau 2050 drwy gyfeirio at yr wybodaeth yn y datganiad ar gyfer y flwyddyn y mae'r targed yn ymwneud â hi.

(6) Rhaid i'r datganiad egluro'r rhesymau y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn gyfrifol am y ffaith bod y targed wedi ei gyrraedd, neu nad yw ei gyrraedd.

(7) Caniateir i ddatganiad o dan yr adran hon ar gyfer blwyddyn gael ei gyfuno â'r datganiad o dan adran 41 ar gyfer y cyfnod cyllidebol sy'n cynnwys y flwyddyn honno.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, RHAN 2. (See end of Document for details)*

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I16** A. 43 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(b)**

*Swyddogaethau corff cynghori: adroddiadau a chyngor*

## 44 Corff cynghori

(1) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau—

(a) sefydlu corff corfforaethol i arfer swyddogaethau'r corff cynghori o dan y rhan hon, neu

(b) dynodi person i fod yn gorff cynghori at ddibenion y Rhan hon.

(2) Ni chaiff y rheoliadau ddynodi person onid yw'r person yn arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus.

(3) Os nad oes rheoliadau o dan is-adran (1) mewn grym, y corff cynghori yw'r Pwyllgor ar Newid Hinsawdd a sefydlwyd o dan adran 32 o Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 (p. 27).

(4) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1)(a), yn benodol, gynnwys darpariaeth ynghylch—

(a) statws ac aelodaeth y corff a sefydlir gan y rheoliadau;

(b) cyflogi staff gan y corff;

(c) tâl, lwfansau a phensiynau ar gyfer aelodau a staff;

(d) trefniadaeth a gweithdrefn y corff;

(e) adroddiadau a chyfrifon (gan gynnwys archwilio).

(5) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1)(a) alluogi Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddydau i'r corff mewn perthynas â'r materion a grybwyllir yn is-adran (4).

(6) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) wneud darpariaeth gysylltiedig, atodol, ganlyniadol, drosiannol neu arbed, a all gynnwys darpariaeth sy'n diwygio, yn diddymu neu'n dirymu deddfiad.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I17** A. 44 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(b)**

## 45 Adroddiadau cynnydd

(1) Cyn diwedd y cyfnod cyllidebol cyntaf, rhaid i'r corff cynghori anfon adroddiad at Weinidogion Cymru yn nodi safbwyntiau'r corff ynghylch—

(a) y cynnydd a wnaed tuag at gyrraedd—

(i) y cyllidebau carbon sydd wedi eu gosod o dan y Rhan hon,

(ii) y targedau allyriadau interim, a

(iii) targed allyriadau 2050,

(b) a yw'r cyllidebau a'r targedau hynny yn debygol o gael eu cyrraedd, ac

(c) unrhyw fesurau pellach sy'n angenrheidiol er mwyn cyrraedd y cyllidebau a'r targedau hynny.

(2) Yn ddim hwyrach na chwe mis ar ôl i Weinidogion Cymru osod y datganiad terfynol ar gyfer cyfnod cyllidebol gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 41, rhaid i'r corff cynghori anfon adroddiad at Weinidogion Cymru sy'n nodi safbwyntiau'r corff ynghylch—

(a) y modd y cyrhaeddwyd neu nas cyrhaeddwyd y gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod,

(b) y camau a gymerwyd gan Weinidogion Cymru i leihau allyriadau net Cymru o nwyon tŷ gwydr yn ystod y cyfnod, a

(c) y materion a nodir yn is-adran (1).

(3) Yn ddim hwyrach na chwe mis ar ôl i Weinidogion Cymru osod y datganiad o dan adran 43 mewn perthynas â 2030 gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, rhaid i'r corff cynghori anfon adroddiad at Weinidogion Cymru sy'n nodi safbwyntiau'r corff ynghylch—

(a) a yw'r targed allyriadau interim ar gyfer 2040 a tharged allyriadau 2050 y targedau uchaf y gellir eu cyflawni, a

(b) os nad y targed uchaf y gellir ei gyflawni yw'r naill neu'r llall ohonynt, beth yw'r targed uchaf y gellir ei gyflawni.

(4) Yn ddim hwyrach na chwe mis ar ôl i Weinidogion Cymru osod y datganiad o dan adran 43 mewn perthynas â 2040 gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, rhaid i'r corff cynghori anfon adroddiad at Weinidogion Cymru sy'n nodi safbwyntiau'r corff ynghylch—

(a) a yw targed allyriadau 2050 y targed uchaf y gellir ei gyflawni,

(b) os nad ydyw, beth yw'r targed uchaf y gellir ei gyflawni.

(5) Caniateir cyfuno adroddiad o dan is-adran (3) neu (4) ag adroddiad o dan is-adran (2).

(6) Rhaid i Weinidogion Cymru osod copi o bob adroddiad a dderbynnir ganddynt o dan yr adran hon gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

(7) Rhaid i Weinidogion Cymru osod ymateb i'r pwyntiau a godwyd gan yr adroddiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ddim hwyrach na chwe mis ar ôl cael yr adroddiad.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I18** A. 45 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(b)**

## 46 Dyletswydd ar y corff cynghori i ddarparu cyngor a chymorth

Os yw Gweinidogion Cymru yn gofyn iddo wneud hynny, rhaid i'r corff cynghori roi i Weinidogion Cymru y cyngor, y dadansoddiad, yr wybodaeth neu'r cymorth arall sy'n berthnasol i—

(a) arfer swyddogaethau Gweinidogion Cymru o dan y Rhan hon, neu

(b) unrhyw faterion eraill sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I19** A. 46 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(b)**

## 47 Canllawiau i'r corff cynghori

(1) Wrth arfer ei swyddogaethau o dan y Rhan hon, rhaid i'r corff cynghori roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddir iddo gan Weinidogion Cymru.

(2) Ni chaiff Gweinidogion Cymru roi canllawiau i'r corff cynghori ynghylch cynnwys unrhyw gyngor neu adroddiad.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I20** A. 47 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(b)**

*Rheoliadau: gweithdrefn a chyngor*

## 48 Rheoliadau: gweithdrefn

(1) Mae pŵer i wneud rheoliadau o dan y Rhan hon i'w arfer drwy offeryn statudol.

(2) Mae offeryn statudol yn ddarostyngedig i'w ddiddymu yn unol â phenderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru os yw'n cynnwys y canlynol yn unig—

- (a) rheoliadau o dan adran 44(1)(b) nad ydynt yn gwneud darpariaeth sy'n diwygio neu'n diddymu deddfiad sydd wedi ei gynnwys mewn Deddf Seneddol neu mewn Mesur neu Ddeddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru;
- (b) rheoliadau o dan adran 52.

(3) Ni chaniateir i unrhyw offeryn statudol arall sy'n cynnwys rheoliadau o dan y Rhan hon gael ei wneud oni bai bod drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a'i gymeradwyo drwy benderfyniad ganddo.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I21** A. 48 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(b)**

## 49 Gofyniad i gael cyngor ynghylch cynigion i wneud rheoliadau

(1) Cyn gosod rheoliadau drafft gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 48(3), rhaid i Weinidogion Cymru—

- (a) gofyn am gyngor gan y corff cynghori ynghylch y cynnig i wneud y rheoliadau, a
- (b) ystyried cyngor y corff cynghori.

(2) Pan fo Gweinidogion Cymru yn gofyn am gyngor gan y corff cynghori o dan yr adran hon, rhaid iddynt bennu cyfnod rhesymol y mae'n rhaid darparu'r cyngor oddi fewn iddo.

(3) Rhaid i'r corff cynghori ddarparu'r cyngor o fewn y cyfnod hwnnw.

(4) Rhaid i gyngor y corff cynghori nodi'r rhesymau dros y cyngor.

(5) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi cyngor y corff cynghori cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl ei gael.

(6) Os yw'r rheoliadau drafft a osodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud darpariaeth wahanol i'r hyn a argymhellwyd gan y corff cynghori, rhaid i Weinidogion Cymru hefyd osod datganiad gerbron y Cynulliad Cenedlaethol sy'n nodi'r rhesymau paham y gwnaed hynny.

(7) Nid yw'r adran hon yn gymwys i reoliadau o dan adran 44.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I22** A. 49 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(b)**

## 50 Cyngor ynghylch rheoliadau arfaethedig sy'n ymwneud â thargedau a chyllidebau

(1) Pan fo'r corff cynghori yn rhoi cyngor i Weinidogion Cymru ynghylch cynnig i wneud rheoliadau o dan adran 29 sy'n newid targed allyriadau 2050 neu reoliadau o dan adran 30 sy'n gosod neu'n newid targed allyriadau interim, rhaid i'r cyngor gynnwys barn y corff cynghori ynghylch—

(a) a yw'r targed a gynigir gan Weinidogion Cymru y targed uchaf y gellir ei gyflawni, a

(b) os nad ydyw, beth yw'r targed uchaf y gellir ei gyflawni.

(2) Pan fo'r corff cynghori yn rhoi cyngor i Weinidogion Cymru ynghylch cynnig i wneud rheoliadau o dan adran 31 sy'n gosod neu'n newid cyllideb garbon ar gyfer cyfnod cyllidebol, rhaid i'r cyngor gynnwys barn y corff cynghori ynghylch—

(a) lefel briodol y gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod;

(b) i ba raddau y dylid cyrraedd y gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod—

(i) drwy ostwng swm allyriadau net Cymru o nwyon tŷ gwydr, neu

(ii) drwy ddefnyddio unedau carbon y caniateir eu credydu i gyfrif allyriadau net Cymru ar gyfer y cyfnod yn unol â rheoliadau o dan adrannau 33 a 36;

(c) y cyfraniadau at gyrraedd y gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod y dylai'r naill a'r llall o'r canlynol eu gwneud—

(i) y sectorau o economi Cymru y mae cynlluniau masnachu yn berthnasol iddynt (i gyd gyda'i gilydd);

(ii) y sectorau o economi Cymru nad yw cynlluniau o'r fath yn berthnasol iddynt (i gyd gyda'i gilydd);

(d) y sectorau o economi Cymru lle ceir cyfleoedd penodol i wneud cyfraniadau at gyrraedd y gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod drwy leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr.

(3) Pan fo'n cynghori Gweinidogion Cymru ynghylch cynnig i wneud rheoliadau sy'n newid targed allyriadau 2050, neu'n gosod neu'n newid targed allyriadau interim neu gyllideb garbon, rhaid i'r corff cynghori roi sylw i'r materion a grybwyllir yn adran 32(3).

(4) Yn is-adran (2), mae i "cynllun masnachu" yr ystyr a roddir i "trading scheme" gan adran 44 o Dddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 (p. 27).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I23** A. 50 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(b)**

*Mesur a dehongli*

## 51 Mesur allyriadau

(1) At ddibenion y Rhan hon, rhaid mesur neu gyfrifo pob un o’r canlynol mewn symiau cyfwerth â thunnell o garbon deuocsid—

(a) allyriadau nwyon tŷ gwydr;

(b) gostyngiadau mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr;

(c) echdyniadau nwyon tŷ gwydr o’r atmosffer.

(2) Ystyr “swm cyfwerth â thunnell o garbon deuocsid” yw un dunnell fetrig o garbon deuocsid neu swm o unrhyw nwy tŷ gwydr arall sydd â photensial cyfwerth o ran cynhesu byd-eang (a gyfrifir yn gyson ag arferion rhyngwladol adrodd ar garbon).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I24** A. 51 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(b)**

## 52 Arferion rhyngwladol adrodd ar garbon

Yn y Rhan hon, ystyr “arferion rhyngwladol adrodd ar garbon” yw’r arferion cyffredin mewn perthynas ag adrodd at ddibenion—

(a) protocolau Confensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd, neu

(b) y cytundebau neu’r trefniadau rhyngwladol eraill hynny, neu’r ymrwymiadau hynny o dan gyfreithiau’r UE, y caiff Gweinidogion Cymru eu pennu drwy reoliadau.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I25** A. 52 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(b)**

## 53 Dehongliad cyffredinol o’r Rhan hon

Yn y Rhan hon—

ystyr “allyriadau” (“*emissions*”) mewn perthynas â nwy tŷ gwydr, yw allyriadau o’r nwy hwnnw i’r atmosffer sydd i’w priodoli i weithgarwch pobl;

mae i “allyriadau Cymru” (“*Welsh emissions*”) yr ystyr a roddir gan adran 34(2);

mae i “allyriadau net Cymru” (“*net Welsh emissions*”) yr ystyr a roddir gan adran 34(1);

mae i “arferion rhyngwladol adrodd ar garbon” (“*international carbon reporting practice*”) yr ystyr a roddir gan adran 52;

mae i "blwyddyn darged interim" ("*interim target year*") yr ystyr a roddir gan adran 30(3);

mae "corff cynghori" ("*advisory body*") i'w ddehongli yn unol ag adran 44;

mae i "cyfnod cyllidebol" ("*budgetary period*") yr ystyr a roddir gan adran 31(3);

ystyr "cyfreithiau'r UE" ("*EU law*") yw—

(a) yr holl hawliau, pwerau, rhwymedigaethau, ymrwymiadau a chyfyngiadau a grëir gan Gytuniadau'r UE neu sy'n codi oddi tanynt o dro i dro, a

(b) yr holl rwymedïau a gweithdrefnau y darperir ar eu cyfer gan Gytuniadau'r UE neu oddi tanynt o dro i dro;

mae i "cyfrif allyriadau net Cymru" ("*net Welsh emissions account*") yr ystyr a roddir gan adran 33;

mae i "cyllideb garbon" ("*carbon budget*") yr ystyr a roddir gan adran 31(1);

mae i "echdyniadau Cymru" ("*Welsh removals*") yr ystyr a roddir gan adran 34(3);

mae i "gwaelodlin" ("*baseline*") yr ystyr a roddir gan adran 38;

mae i "nwy tŷ gwydr" ("*greenhouse gas*") yr ystyr a roddir gan adran 37;

mae i "targed allyriadau 2050" ("*2050 emissions target*") yr ystyr a roddir gan adran 29;

mae i "targed allyriadau interim" ("*interim emissions target*") yr ystyr a roddir gan adran 30(1);

mae i "uned garbon" ("*carbon unit*") yr ystyr a roddir gan adran 36(1).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I26** A. 53 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(b)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, RHAN 2.